# MARY KING SARAH – MERCH SARAH SARAH

YN EU herthygl ddiddan a golau am Grace Gwyneddon Davies yn y rhifyn diwethaf o'r *Casglwr* gan Maldwyn a Doris Thomas, ceir cyfeiriad at gantores Gymreig nodedig arall o Ddyffyn Nantlle. Fe swnia ei henw — Mary King Sarah — fel enw barddol neu enw llwyfan, ond dyna'n wir oedd ei henw iawn.

Daeth Edwin a Julia Sarah gyda thri o blant — Tom, Annie a Jennie, o Gernyw i Dalysarn a chafodd y penteulu, a oedd yn fecanic pur fedrus, waith yn gyrru un o beiriannau y chwarel. Yr oedd ei fab Tom o'r un duedd a daeth yntau'n un o yrwyr trên bach y chwarel, ond yr oedd hefyd yn gerddorol iawn. Bu'n canu'r cornet ym mand arian Dyffryn Nantlle ac yn arweinydd y band am chwarter canrif.

Dan ei arweiniad enillodd y band gryn fri a bu'n perfformio gerbron y Frenhines Victoria.

Fe briododd Tom gyda Sarah Jones. Yr oedd ei thad yn codi canu yng nghapel Brynaerau a Sarah ei hun yn gontralto adnabyddus aml ei gwobrau. Fe'i hadnabyddid fel 'Seren Aerau', ond wedi iddi briodi Tom Sarah roedd ganddi enw anarferol iawn — Sarah Sarah.

Bu iddynt bump o blant ac enwyd un ar ôl perthynas yn Lloegr — Mary King. Felly Mary King Sarah oedd ei henw llawn.

Yr oedd y teulu yn aelodau o gapel yr Annibynwyr Seion yn Nyffryn Nantlle a daeth Mary King, gyda help ei thad, i gynorthwyo gyda chaniadaeth yr achos, a byddai'n canu gyda'r côr ac fel unawdydd.

* * * *

PAN DORRODD y Diwygiad yn 1904 daeth Mary King Sarah yn adnabyddus i gylch eang am y byddai'n mynd oddi amgylch yr eglwysi gyda'r diwygwyr i ganu i gynulleidfaoedd mawr iawn gan barhau o 1906 i 1909 i ganu mewn ugeiniau o gyngherddau trwy Gymru.

Yn Nyffryn Nantlle yn y cyfnod yma yr oedd nifer o gantorion poblogaidd yn cynnwys y brodyr Francis a byddai Mary King yn cystadlu yn eu herbyn ac yn ymddangos ar yr un llwyfannau mewn cyngherddau. I ddatblygu ei thalent a'i llais godidog fe drefnodd ei rhieni iddi gael hyfforddiant gan John Williams, Caernarfon a daeth yn aelod o gôr merched John Jones Owen, côr cymysg Tom Powell a ddeuai o Ddyffryn Nantlle, a Chymdeithas Operatic Caernarfon a arweinid gan John Williams — ac enillodd côr John Williams yn y Crystal Palace yn Llundain.

Pan ddaeth yr Eisteddfod Genedlaethol i Gaernarfon yn 1909 gwnaeth Mary King Sarah gamp fawr iawn. Enillodd y wobr am unawd soprano — gan guro Ivor Novello a oedd yn hogyn o soprano ar y pryd. Ar ben hyn enillodd ar yr unawd mezzo-soprano, ac i goroni'r cyfan gyda Evan Lewis, Capel Curig, enillodd ar y ddeuawd hefyd.

Wedi'r llwyddiant yma fe drefnwyd iddi hi, gyda Mary Richards, Rhymni, contraolto, a Harry Lewis, Nelson, tenor, fynd ar chwe wythnos o daith trwy Gymru. Wedi hyn bu galw amdani ym mhrif gyngherddau Cymru a Lloegr ac fe gafodd ymddangos yn yr operâu *Il Travatore* a *Maritana* gyda Cymdeithas Harmonic Ferndale.

* * * *

YN 1909 cytunodd i fynd yn unawdydd gyda Chôr Meibion Brenhinol y Moelwyn. Cafodd groeso mawr a chanmoliaeth mawr gan yr Americanwyr, ond ar derfyn y daith helaeth fe arhosodd Mary King Sarah gyda theuluoedd Cymreig yn America gan ymweld pan oedd yn Wisconsin â'r pensaer enwog Frank Lloyd Wright a oedd yn perthyn o bell i'w mam. A gan fod yr holl ganu yn straen ar ei llais penderfynodd roi seibiant iddo a mynd yn nyrs yn Wisconsin.

Aros yn America a wnaeth Mary a phriodi â Leonard Schoen yn 1913. Cawsant bump o blant ond bu ei phriod farw yn 1923.

Bu'n rhaid i Mary King droi i weithio mewn siop ddillad merched ac yna mewn swyddfa i gynnal y teulu. Pan oedd yn Waukesha, Milwaukee fe gasglodd Cymry'r ardal ynghyd a ffurfiodd y Cymric Choral Society. Fe'u gwahoddwyd i uno mewn côr o chwe chant yn Ffair y Byd yn Chicago yn 1933.

Pan ddaeth yr Ail Ryfel Byd yr oedd teulu Mary King wedi mynd tros y nyth ac aeth Mary King i weithio i Gwmni Moduron Waukesha a pharhaodd yn brysur yn cefnogi Cymanfaoedd Canu, ond yr oedd hi ei hun wedi mynd heibio i'r hanner cant a rhoi'r gorau i ganu ei hun.

Yn 1946 priododd Evan L. Thomas, perchennog gwasg yn Waukesha y daeth ei deulu o Geredigion. Ac yn 1947 ymwelodd â'i henfro yng Nghymru am fod ei brawd John Sarah (Pencerdd Cernyw) wedi ei daro'n wael.

Yn 1951 bu farw ei hail ŵr a symudodd hithau i fyw gyda'i merch Evelyn a'i phriod yn Marcellus, Efrog Newydd.



*MARY KING SARAH*
*Bu farw yn Efrog Newydd yn 1965 yn 80 oed*

Yn 1959 daeth Mary King am y tro olaf i Gymru gyda chôr o America ac ymwelodd ag eisteddfodau lleol ac Eisteddfod Gydwladol Llangollen a chafodd ei chroesawu'n aelod o'r Orsedd yng Nghastell Caernarfon wythnos y Brifwyl yn yr hen dre.

Yn 1960 a 1961 ymwelodd â Phoenix, Arizona ac yno priododd, am y trydydd tro, gyda'r Parch David L. Jones, brodor o Lanarth, Ceredigion. Dim parhad i'r briodas yma chwaith — bu ei phriod farw yn 1962, aeth hithau i fyw gyda theulu yn North Syracuse, Efrog Newydd.

# ENID PARRY yn cofio GRACE GWYNEDDON DAVIES

DARLLENAIS gyda blas yr erthygl hynod o ddiddorol ar Grace Gwyneddon Davies, gan Maldwyn a Doris Thomas yn rhifyn Nadolig 1990 o'r *Casglwr.*

Y mae ynddi gyfeiriad at stori ar lafar ym mro Caernarfon am y modd y syrthiodd Robert Gwyneddon Davies mewn cariad â Grace Roberts, y gantores ifanc o Lerpwl. Yn ôl y traddodiad lleol yr oedd Grace Roberts wedi cystadlu ar yr unawd soprano yn Eisteddfod Genedlaethol Caernarfon 1906, ac wedi colli. Yr enillydd oedd Mary King Sarah.

Yn ôl Maldwyn a Doris Thomas: 'Ond chollodd hi ddim chwaith. Yn ôl y stori, fe welodd Robert Gwyneddon y dagrau o siom ar ruddiau'r gantores dlos o Lerpwl wedi'r cystadlu, wedi'r beirniadu. Ac yno, yng nghefn llwyfan pafiliwn Caernarfon, yn ddisymwth, yr oedd o mewn cariad, yr eiliadau hynny, yn syllu i'r llygaid gleision mawr . . . Ond tybed a fyddai un o gantorion proffesiynol yr ŵyl fawr wedi cystadlu o gwbwl?'

Yr wyf innau, fel Maldwyn a Doris Thomas yn amau a fyddai hi wedi cystadlu. Ni chlywais Grace Gwyneddon Davies erioed yn sôn ei bod wedi cystadlu mewn unrhyw eisteddfod.

Yn 1906 yr oedd hi'n gantores broffesiynol, wedi cael blynyddoedd o hyfforddiant yn Llundain, Paris a'r Eidal, ac fel cantores broffesiynol yr ymddangosodd ar lwyfan yr eisteddfod honno yng Nghaernarfon, yn y cyngerdd Celtaidd ar y nos Wener. Clywais yr hanes gan fy mam, ac yr oedd hi yn y gynulleidfa y noson honno.

Ymddengys bod y gantores, ar ôl canu ei chaneuon, wedi mynd i'r ystafell yng nghefn y llwyfan, gan wylo dagrau'n hidl, oherwydd bod ei chyfeilydd wedi difetha ei datganiad trwy chwarae'r cyfeiliant yn llawer rhy araf.

Yno yr oedd Robert Gwyneddon yn sychu ei dagrau ac yn ei chysuro, a chyn pen tair blynedd fe ddaeth hi'n wraig iddo. Ar ôl priodi, rhoes ei hamser i gasglu a threfnu alawon gwerin, a bu'n beirniadu yn aml yn yr eisteddfod genedlaethol.

* * * *

YN YR ERTHYGL dan sylw, y mae Maldwyn a Doris Thomas yn rhoi cynnwys y casgliad cyntaf a gyhoeddodd Grace Gwyneddon Davies, sef *Alawon Gwerin Môn* 1914, gan nodi mai Robert Bryan a wnaeth y geiriau Saesneg. Cyhoeddwyd *Ail Gasgliad o Alawon Gwerin Môn* yn 1923, ac fe ddywed Maldwyn a Doris Thomas mai Robert Bryan oedd awdur y geiriau Saesneg yn y gyfrol hon hefyd. Ond nid yw hyn yn gywir.

Robert Gwyneddon Davies a wnaeth y geiriau Saesneg i'r Ail Gasgliad. Yn ôl fy nghopïau i, Hughes a'i Fab, Wrecsam, a gyhoeddodd y ddau gasgliad, ac nid oes sôn mai 'Cwmni'r Cyhoeddwyr Cymreig yn adeilad *Y Genedl* yng Nghaernarfon' a argraffodd y gyfrol gyntaf, fel y dywed awduron yr erthygl.

Y mae Maldwyn a Doris Thomas yn dyfynnu rhai pethau a ddywedais am Grace Gwyneddon Davies yn fy erthygl ar gasglwyr alawon gwerin yn *Canu Gwerin* 1990, sef cylchgrawn Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru, lle y soniais am dri chasgliad o waith Grace Gwyneddon.

Ar ôl nodi'r alawon yn y ddau gasgliad o alawon gwerin Môn, mae'r awduron yn gofyn, 'Pa un oedd y trydydd?' Teitl y trydydd yw *Chwech o Alawon Gwerin Cymreig* (Hughes a'i Fab, Wrecsam 1933):

1. Y Gog Lwydlas
2. Philomela
3. Y Ddau Farch
4. Hiraeth
5. Ar Gyfer Heddiw'r Bore
6. Y Cyntaf Dydd o'r Gwyliau

Thomas Parry, fy niweddar briod a wnaeth y geiriau Saesneg i'r gyfrol hon, ac efallai mai dyna paham yr anfonodd Grace Gwyneddon gopi i mi, gyda'r geiriau, 'With birthday greetings from Grace Gwyneddon Davies' ar y ddalen deitl.